
# PERTHYN

Mai 2024 Rhifyn 326



*Mai*

*Gwn ei ddyfod, fis y mêl,*
*Gyda'i firi yn yr helyg,*
*Gyda'i flodau fel y barrug—*
*Gwyn fy myd bob tro y dêl.*

*Eifion Wyn*
*1867-1926*

# Gair gan y Gweinidog

Ychydig filltiroedd i'r gorllewin o dref Croesoswallt mae pentref Trefonen. Pentref bach del gyda amrywiaeth o dai traddodiadol a newydd ynghyd ag eglwys. Hyd 1992, pentref mewn ardal ddiethr oedd y pentref yma i mi, ond wrth dderbyn galwad i weinidogaethu eglwysi Cymraeg Croesoswallt, etifeddais achosion *Carneddau* a *Chefnblowel.* Yn hanesyddol bu'r pentrefi yma yng Nghymru ar un adeg ond o ganlyniad i'r brwydro parhaus ar y Gororau rhwng y Cymry a'r Saeson, gwelwyd symud y ffin droeon. O ganlyniad ceir ardaloedd yn Lloegr sydd wedi cadw'r enwau Cymreig a hefyd rhai wedi eu Seisnigeiddio. Roedd yna flaenor yn byw ym mhentref Whittington, Hywel Griffiths, yn wreiddiol o Dre Meirchion, Dyffryn Clwyd. Gan y gweithiodd i gwmni bwyd anifeiliaid roedd yn adnabod yr ardal yn dda a gallai olrhain nifer o enwau ffermydd ac ardaloedd i'w gwreiddiau Cymreig. Cymerwch fel enghraifft yr enw 'Hindford' rhwng Whittington ac Ellesmere, o'r Gymraeg, Hen Ffordd ac yna ar yr un lôn, *Maestermyn*, *Maes Terfyn* ac mae *Trefonen* yn un o'r pentrefi hynny. Er fod y pentref yn Sir Amwythig, mae ganddo enw Cymreig.



*Capel y Carneddau*

Hyd y flwyddyn 2016, roedd Capel y Carneddau yn gapel Cymraeg, sef *Carneddau*, un o gapeli Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Fe ges i y fraint o fod yn weinidog ar yr eglwys honno am bedair blynedd hapus a gallaf dystio i ffyddlondeb yr ychydig fyddai'n cyfarfod yno

o Sul i Sul. Bu'n gartref ysbrydol i un cenhedlaeth ar ôl y llall a hynny am gant wythdeg a dau o flynyddoedd tan caewyd y drysau am y tro olaf ychydig flynyddoedd yn ôl. Adeliad bach hirsgwar oedd Carneddau gyda chyntedd, ystafell fychan i gadw popeth a man addoliad. Adeilad heb unrhyw orchast pensaernïol, adeilad bach syml yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth anghydffurfiol o fan addoliad. Byddai Gwen wrth yr organ, harmoniwm unigryw gyda peipiau metal wedi eu clymu i'r cefn, ac yn datgan bod yr organ yn tipyn gwell organ na'r organ bîb fawr oedd yn y ferch eglwys, Seion, yn y dref!

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd cynnydd mewn adeiladau crefyddol mawr ac urddasol, yn adlewyrchu cyfoeth a maint cynulledifaoedd, a chyda'r etifeddiaeth yna, y perygl o golli golwg ar y ddealltwriaeth sylfaenol o eglwys, sef pobl. Heb fanylu, daeth un o eglwysi Llanelli i fod o ganlyniad i raniad ymhlith aelodau y fam eglwys. Fel y digwyddodd mewn nifer i dref ac ardal, sefydlwyd achos newydd a dyma fynd at bensaer gyda'r briff o adeiladu capel oedd yn grandiach ac yn fwy na'r fam eglwys! Yn eironig iawn, mae'r capel yna bellach wedi cau ac mae'n iawn dweud y gall y rhai sy'n dal ar agor fod yn fwrn i'r ychydig ffyddlon. Fe fyddai'n wir dweud bod y rhai sefydlodd ac adeiladodd capel bach Carneddau yn gwybod beth yw ystyr bod yn eglwys; nid yr adeilad ond yn hytrach y bobl. Pobl ffydd yn addoli ac yn tystiolaethu, ond yn fwy na dim, yn ceisio byw y bywyd atgyfodedig.

Y mae'r cyfnod yma rhwng y Pasg a'r Pentecost yn caniatau i chi a fi gyfle i fyfyrio ar y ddealltwriaeth gywir o fod yn eglwys. Pobl ffydd yw'r Eglwys a ble bynnag y mae unigolion yn ymateb i alwad Duw, yno mae'r Eglwys yn weledol, ac yn adleywrchu mewn gwyleidd-dra ei chonglfaen, y Crist gorfoleddus, Crist yr atgyfodiad a Christ bywyd.

Edrychwn ymlaen i'r Pentecost.

*Eifion.*

## Apêl gan y Trysorydd

Annwyl Gyfeillion,

Fel y gwyddoch, buom yn absennol o'r capel am rai wythnosau am fod gwaith ar y gweill i osod gwresogydd newydd yn ei le. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau, a diolch i bawb a fu'n trefnu hynny ar ein rhan. Yn ôl pob tebyg, dyma'r tro cyntaf inni orfod adnewyddu gwresogydd y capel ers diwedd yr 1970au.

Mae'r gost o wneud hyn dros £16,000, gyda threth ar werth ar ben hynny – cyfanswm o bron £20,000. Sicrhawyd benthyciad gan Gronfa Fenthyg Cymdeithasfa'r De i gynorthwyo gyda'r gost, ond apeliwn hefyd am gyfraniadau gan yr aelodau.

Os ydych yn dymuno cyfrannu, gallwch wneud hynny drwy siec yn daladwy i Gapel y Morfa, a'i hanfon at y Trysorydd, neu drwy drosglwyddiad banc i gyfrif Capel y Morfa, cod didoli 20-18-41, rhif cyfrif 90238848. Byddwn yn ddiolchgar am bob cyfraniad a ddaw.

Gyda diolch,

Rhidian (Trysorydd)
Coed y Berllan
Ffordd Bryn-y-môr
Aberystwyth
*SY23 2HX*

Ar y 15fed o Fai yn Amgueddfa Ceredigion, cynhelir noson gan *Gymdeithas Gefeillio Aberystwyth-Esquel* i ddathlu cyfraniad **Elvey MacDonald** a **Eirionedd Baskerville**. Bydd y noson yn dechrau am 7:30, gyda lluniaeth ysgafn am 7. Croeso i bawb.

## Gwahodd pobl ifanc hŷn i ddod yn Aelodau yng Nghapel y Morfa

Mae’r capel yn cynnig cyfle i bobl ifanc hŷn hoffai ystyried ddod yn Aelod yng Nghapel y Morfa.

Bydd adnoddau ar bynciau fel ‘Wyt ti'n credu?’ ‘Pwy neu beth yw Duw?’ ‘Beth yw Eglwys?’ ‘Beth yw ystyr bod yn aelod?’ yn cael eu rhannu. Yna, bydd cyfarfod ar Zoom i drafod yn cael ei gynnal rhywdro o ddiwedd mis Mai ymlaen ar ddyddiad sy’n gyfleus i’r rhai sydd am fynychu. Yn dilyn hynny, bydd y rhai sy’n dewis dod yn Aelod yn cael eu derbyn mewn gwasanaeth a’r dyddiad ar gyfer hyn i’w drefnu.

Estynnir y gwahoddiad i’r rhai sydd yn 18 oed neu’n hŷn.

Os am fod yn rhan o hyn, plîs cysylltwch gydag Elin sy'n cynorthwyo Eifion gyda'r trefnu: elinroyles@hotmail.com . Rhowch wybod erbyn 20 Mai os gwelwch yn dda.

## Bore coffi HAHAV yn y Morlan 20 Ebrill



Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus i’r elusen HAHAV yn y Morlan ar 20 Ebrill. Diolchwyd i Dr Alan Axford am ei waith fel cadeirydd dros y deg mlynedd diwethaf a chroesawyd Gwerfyl Pierce Jones fel y cadeirydd newydd. Perfformiodd y côr, Sgarmes, nifer o ganeuon. Apeliwyd am ragor o wirfoddolwyr i wneud bob math o waith i’r elusen. Os oes diddordeb gyda chi i wirfoddoli cysylltwch â Gwerfyl neu Deian.

# Newyddion

**Cydymdeimladau**
Cydymdeimlwn â Ann, Lewis a Hywel Jones ar farwolaeth eu Mam, sef Mrs. Celia Jones. Cydymdeimlwn hefyd â Julie a Patsy, y merched-yng-nghyfraith a'r wyrion Morgan, Eluned a Gwynfor.

Cydymdeimlwn â Ellen Llwyd-Evans a Huw Evans ar farwolaeth Mam Ellen, sef Mrs. Beryl Lloyd Jones. Bu Mrs. Jones yn mynychu'r gwasanaethau yn Ebeneser ac roedd bob amser yn braf i gael ei chwmni. Cydymdeimlwn hefyd â Huw ac Emyr, brodyr Ellen a'u teuluoedd.

Yn y rhifyn olaf o Perthyn, cyhoeddwyd marwolaeth Mrs. Betty Bailey. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlosgfa o dan arweiniad Y Parchg Eifion Roberts. Cydymdeimlwyd â chwaer Betty yn Sir Benfro, ei theulu a'i chyfeillion. Roedd Ebeneser yn agos at galon Betty ac ar y daflen nodwyd fod y rhoddion er cof amdani yn rhoddedig i Ebeneser. Gwerthfawrogir hyn yn fawr.

**Llongyfarchiadau**
**…**i Mrs. Mary Evans ar enedigaeth ei gor-ŵyr yn Llundain. Mae Noah yn fab i Lowri ac Adam, yn frawd i Alfie ac yn ŵyr i Huw Evans, Goginan. Dymunwn yn dda i chi fel teulu.

**Dymuniadau gorau**
…i'r plant a'r ieuenctid fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod ymhen rhai wythnosau – yn unigol ac fel rhan o gôr, parti neu grŵp.

Hefyd mae nifer yn wynebu cyfnod yr arholiadau. Dymunwn yn dda i chi bob un.

**Diolch**
…i bawb gyfranodd at Apêl y Grawys tuag at waith UNICEF yn Gaza. Derbyniwyd £170 trwy'r arian yn y botel losin a'r cyfraniadau a dderbyniwyd yn y Clwb Sul.

**Cyfarfodydd Gweddi a Choffi yn Festri'r Morfa bob bore Mawrth am 10.30. ac ar Zoom am 11 o'r gloch**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf cafwyd Myfyrdod ar y Gwanwyn a Sesiwn rannu yn seiliedig ar y gair *Newydd.* Dewiswyd adnodau ac emynau gan rhai o'r aelodau a rhannwyd profiadau arbennig a lluniau gan eraill.

Un bore Mawrth daeth Llinos Roberts atom ar ran Cymorth Cristnogol i gyflwyno'r deunydd sydd wedi ei baratoi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Byddwn yn cynnal Gwasanaeth Cymorth Cristnogol ar fore Sul Mai 19eg a bydd coffi ar ôl y gwasanaeth yn y festri. Trefnir gweithgareddau arbennig gan y plant a'r ieuenctid hefyd.

**Astudiaeth Ffydd a Phaned ar brynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom**

Byddwn yn myfyrio ar y cyfnod ar ôl y Pasg sydd yn arwain at y Pentecost ac yn rhoi sylw i Gredo'r Eglwys Fore a Bywyd yr Eglwys heddiw.

## Ebeneser



Anfonwn ein cofion at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Gwerthfawrogir y gwasanaethau ar y Sul a'r gymdeithas â'n gilydd. Bydd dau wasanaeth o dan ofal ein Gweinidog yn ystod mis Mai: Gwasanaeth Cymun ar brynhawn Sul, Mai 5 am 2.15 a gwasanaeth ar brynhawn Sul, Mai 19 am 2.15.

## Clwb Sul y Morfa

Yn ystod yr wythnosau yn dilyn y Pasg buom yn clywed y storïau am Iesu wedi ei atgyfodi. Ymddangosodd i Fair yn yr ardd ac yna i Cleopas a'i ffrind ar y ffordd o Jerwsalem i Emaus. Clywsom am sut gwnaethant adnabod yr Iesu wrth ei weld yn torri'r bara wrth y bwrdd.

Yn y drydedd stori yn y gyfres ymddangosodd i'r disgyblion ar lan Tiberias. Ar ôl eu cyfarwyddo i daflu'r rhwyd yr ochr arall i'r cwch, fe'u gwahoddodd i ymuno yn y picnic ar y traeth. Dangosodd i Pedr fod cyfle newydd iddo, a chyfrifoldeb i ofalu ac i rannu'r newyddion da.

Cawsom hwyl yn hel y pysgod a'u gosod yn nhrefn y stori a mwynhau'r gweithgareddau crefft. Wrth gwrs mae'r parasiwt bob amser o gymorth mawr!

Buom hefyd yn darparu ar gyfer y Gymanfa Ganu ym Methel Tal-y-bont ar Ebrill 28ain, o dan arweiniad Mrs. Helen Williams - yn dysgu'r emynau a pharatoi i gyflwyno geiriau'r emyn *"Molwn dy enw Di"*

Roeddem yn edrych ymlaen at glywed y tair chwaer MacDonald yn canu yn y Gymanfa a'u tad, Hector MacDonald yn cyfeilio. Maent wedi dod i ymweld â Chymru ac i dreulio amser gyda'u teulu yma.

## Lluniau o weithgareddau'r Ysgol Sul



Helfa wyau ar ddydd Sul y Pasg



Iesu a Mair



Ar y ffordd i Emaus




Iesu ar y traeth ar ôl helpu'i ffrindiau i ddal llwyth o bysgod

# Apêl Wythnos Cymorth Cristnogol Mai 12-18, 2024



*Aline Nibogora a’r beic sy’n ei helpu i gludo ei nwyddau i’w gwerthu*

Eleni mae Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar Aline Nibogora, mam benderfynol o Burundi, gwlad dlawd iawn gyda economi fregus sy’n dibynnu ar amaethyddiaeth. Cafodd Burundi ei heffeithio fawr gan yr argyfwng hinsawdd a’r argyfwng costau byw byd-eang. Mae 70% o bobl y wlad hon yn byw mewn tlodi.

Teimlodd Aline Nibogora dlodi eithafol pan ddaeth priodas gynnar i ben gyda chamdriniaeth. Wedi’i gwahanu wrth ei phlant, fe’i gorfodwyd i gysgu ar y strydoedd, heb unrhyw gartref, gofal iechyd na diogelwch.

Trawsnewidiodd Aline ei bywyd gyda help gan bartner Cymorth Cristnogol. Ymunodd hi â Chymdeithas Cynilio a Benthyciadau Pentref a oedd yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ferched fel Aline. Ymhen amser roedd Aline yn gallu tyfu bwyd maethlon – afacados a chnau daear – a phrynu beic i’w cludo i’r farchnad. Mae hefyd wedi adeiladu tý i’w alw’n gartref iddi hi a’i phlant.

Cafodd Aline ei gwthio i'r dibyn, ond gwthiodd yn ôl yn galed. Gallwch chi gefnogi teuluoedd fel teulu Aline wrth gyfrannu at apêl Cymorth Cristnogol eleni. Dathlwn ein gobaith am fyd tecach drwy ein doniau, ein gweddïau a'n cyfraniadau.
(*Gwybodaeth ar wefan Cymorth Cristnogol*)

**Cofiwch am y canlynol sy'n digwydd yn lleol -**

- Bydd **amlenni a thaflenni defosiwn** Cymorth Cristnogol i'w cael yn y cyntedd ar **12 Mai**. Gallwch ddychwelyd yr amlenni,wedi'u llanw yr un Sul neu ar Sul 19 Mai.

- Bydd **Cinio Bara a Chaws** yn cael ei gynnal ar **13 Mai,** yn **Bethel,** Stryd y Popty, rhwng hanner dydd a hanner awr wedi un

- Bydd y **Clwb Sul** yn paratoi **te a choffi** ar ôl y gwasanaeth yn festri Capel y Morfa, ar **Mai 19**

- **Her teithio 70k yn ystod mis Mai dros Gymorth Cristnogol**
  Yn ystod mis Mai eleni, bydd yr ieuenctid yn gobeithio cwblhau, fel grŵp, deithio **70k** drwy wahanol ddulliau – o gerdded, rhedeg, seiclo a theithio mewn car a bws yn ystod y mis. Pe byddech yn dymuno eu noddi bydd blwch yng nghyntedd y Capel i roi cyfraniadau. Diolch ymlaen llaw.

# Gweddïwn

## Duw Tangnefedd



Diolchwn i ti, Arglwydd, am gael bod yn dy bresenoldeb
ac am yr hyfryd hedd sydd yn dy gwmni.
Gad i'th dangnefedd lonyddu'n cyrff,
tawelu'n meddyliau, gorlifo'n heneidiau
a llenwi'r lle hwn.

Gweddïwn dros bawb sydd mewn angen, mewn adfyd
ac mewn amgylchiadau cythryblus.
Arglwydd, rho dangnefedd.

I bawb sy'n dioddef tlodi eithafol mewn gwledydd fel Burundi,
Arglwydd, rho dangnefedd.


I bawb sy'n ymateb yn hael i apêl Cymorth Cristnogol
am gymorth ariannol i brosiectau sy'n rhoi gobaith
a hunan hyder i ferched fel Aline.
Arglwydd, rho dangnefedd.

I bawb sy mewn sefyllfa o ryfel a therfysg
ac yn byw mewn ofn;
Arglwydd, rho dangnefedd.

Meddianna ni, llifa drwom
a defnyddia ni yn gyfryngau dy dangnefedd
yn y byd. Amen.

*(addasiad o Duw Tangnefedd, allan o Cymer fy munudau,
Elfed ap Nefydd Roberts)*

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2024



# Pum munud i gofio pregeth

Huw Roderick oedd yn arwain yr oedfa yn Morlan ar Ebrill 7fed. Roedd nifer o ieuenctid yn bresennol i wrando ar neges eu hathro Hanes yn Ysgol Penweddig. Adroddodd stori Iesu yn ymddangos i'r disgyblion ar ôl ei atgyfodiad.

Darllenwch Ioan 20, adnodau 19-29.

Roedd y drysau wedi'u cau a'r disgyblion yn ofnus iawn. Ymddangosodd Iesu a dangosodd ei glwyfau a dweud "Tangnefedd i chwi". Roedd y disgyblion wrth eu bodd ar ôl gweld bod Iesu'n fyw. 'Doedd Tomos ddim gyda nhw a phan glywodd yr hanes 'doedd e ddim yn credu bod Iesu'n fyw. Wythnos yn ddiweddarach ymddangosodd Iesu i'r disgyblion eto pan oedd Tomos gyda nhw. Y tro hwn credodd Tomos a chyhoeddodd "Fy Arglwydd a'm Duw!"

Pwysleisiodd Huw Roderick bod ein bywydau ni yn gyffyrddus a moethus. Mor aml rydym yn pwysleisio'r agweddau materol - prynwn bob math o nwyddau a bwydydd ychwanegol i'w mwynhau, fel wyau siocled sy'n cael eu gwerthu'n rhad ar ôl y Pasg a'u bwyta'n ddidaro. Ond mae'n bwysig ein bod ni, fel Cristnogion, yn cofio gwir ystyr y Pasg- bywyd ar ôl marwolaeth- mae Iesu'n fyw a'i fod yn cyhoeddi "Tangnefedd i chwi!"

*Gwyn eu byd y rhai a gredodd heb iddynt weld*.



## Darlith Flynyddol Morlan / Pantyfedwen gan Yr Athro Virginia Gamba: ‘Building Connections for the Common Good: Dialogue and Trust in the Pursuit of Peace’

‘Keep in touch, ok?’ medde hi wrth rannu ei chardiau busnes yn nodi cyfeiriad y Cenhedloedd Unedig ymysg y gynulleidfa fu ar eu traed yn cymeradwyo ar ddiwedd Darlith Morlan / Pantyfedwen eleni yn y Morlan.




*Gwerfyl, Y Athro Virginia Gamba,*
*Mererid Hopwood (Cadeirydd y ddarlith) a Gwenan*

Mae teitl yr Athro Virginia Gamba - Cynrychiolydd Arbennig Ysgrifennydd-Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Blant a Gwrthdaro Arfog - yn dangos arwyddocâd ei gwaith. Gwaith sy’n cael ei benderfynu gan Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, y corff sydd â’r mandad o sicrhau heddwch rhyngwladol a diogelwch. Yn y bôn, mae’n bencampwraig ag arddeliad dros ddiogelu hawliau plant, yn arbennig mewn amgylchiadau o ryfel. Y

nod yw eu hachub rhag cael eu defnyddio a’u camddefnyddio, er enghraifft drwy gael eu recriwtio fel milwyr.

Roedd hi’n glir bod degawdau o arbenigedd yr Athro Virginia Gamba mewn diarfogi, heddwch a diogelwch yn sail cadarn i’w gwaith. Teithiodd i fannau ansefydlog sy’n aml ar y rhestrau coch lle na ddylech deithio iddyn nhw oherwydd gwrthdaro. Yno, mewn llefydd fel Irac, Yemen, a Phalestina mae’n ceisio dwyn perswâd ar grwpiau i newid ymddygiad, i gydymffurfio â phenderfyniadau’r Cenhedloedd Unedig gan er enghraifft ryddhau plant o’u lluoedd. Gwrthod ymweld ag Affganistan yw ei harf presennol gyda’r Taliban.



Fe glywsom ni enghreifftiau o’r ffordd feistrolgar mae hi’n defnyddio’r egwyddorion sylfaenol sydd yn nheitl ei darlith i weithio tuag at heddwch. Mae’n cynnwys y pwysigrwydd o wrando cyn siarad, sgwrsio a hiwmor, creu gofod diogel i drafod ac i ddod i wybod beth yw’r tir cyffredin, dweud y gwir, bod yn dryloyw a

meithrin ymddiriedaeth. Yn fwyaf annisgwyl efallai dangosodd sut mae trafod crefydd a Duw yn adeiladu ymddiriedaeth a meithrin perthynas gyda'r bobl mae hi'n trafod â nhw. Roedd hi'n amlwg bod ei hymddiriedaeth yn Nuw, ddatblygodd pan fu'n astudio gradd uwch yma'n Aberystwyth, yn ddwfn. Pwysleisiodd bod gobaith yn diddiwedd drwy Dduw a'r sail i greu tir cyffredin yn arf pwerus iddi.

Drwy ei thrafodaeth o'r hyn sy'n bwysig i wireddu byd heddychlon, cysylltodd ei negeseuon â chenhadaeth y Morlan ac Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen gan gadarnhau ac atgyfnerthu pwysigrwydd eu gwaith. Er enghraifft, creu gofodau i drafod a chreu cymuned, cefnogi addysg a sefydliadau crefyddol, celf a chelfyddyd.

Er ei holl obaith, yn wyneb rhyfeloedd enbyd heddiw, awgrymodd bod llai o gymodwyr y dyddiau hyn er bod sicrhau datrysiadau heddychlon mor allweddol. Pwysleisiodd nad oedd sefydliadau'r Cenhedloedd Unedig a rheolau rhyfela grewyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn adlewyrchu anghenion heddiw. Dywedodd bod angen dybryd am ail-ystyried y rheolau yn sgil newid yn natur gwrthdaro a rôl technoleg mewn rhyfela, fydd yn datblygu'n bellach yn sgil deallusrwydd artiffisial (AI). Rhai o'i hatebion oedd cyfyngu ar arfau, gan gynnwys arfau distryw mawr, a Chonfensiwn Genefa newydd i ddiogelu pobl gyffredin mewn gwrthdaro. Drwy'r ddarlith hon, dangosodd hefyd fod deialog, meithrin perthnasau ac ymddiriedaeth yn sylfeini pwysig wrth weithio at heddwch o fewn cymunedau ac yn rhyngwladol.

*Elin Royles*

Mae testun y ddarlith a recordiad ar wefan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen: https://www.jamespantyfedwen.cymru/lecture.html

# Etifeddiaeth



Difyr oedd gweld llun Mami (Mona) a finnau yn y rhifyn diwethaf - diolch, Rocet! Cofnod ac atgof melys iawn. Meddwl gwnes i wedyn y buasai'r darllenwyr yn hoffi gweld y llun yma. Eto, llun ohonof i a Mam a 'mrawd yn barod i fynd i'r capel, ond ym 1967, nid 2024 - bron i 60 mlynedd yn ôl!

Cychwyn off am yr Ysgol Sul roeddem, i Gapel MC Anfield Rd., lle'r oedd teulu Bowen wedi addoli ers dod i Lerpwl yn y 19eg ganrif. Rydym o flaen ein tŷ, yn barod i fynd i'r car, a Dad (fyddai byth yn dod i'r capel - 'rhen bagan iddo!) yn bachu'r cyfle i dynnu llun. Roeddwn i dal yn yr ysgol gynradd efo trwser byr a sanau hirion, a 'mrawd wedi cyrraedd ail flwyddyn yr Ysgol uwchradd, efo trwser hir!

Dyma enghraifft o'r 'etifeddiaeth' hynny y soniais amdani yn Perthyn llynedd, fel un o'r rhesymau i mi ddod yn aelod yn y Morfa heddiw. Mae hynt fy mywyd wedi ymlwybro yn helaeth iawn ers y dyddiau hynny, ond maen nhw o hyd yn rhan fawr ohono. Er nad oeddwn fel hogyn bach aflonydd, anufudd(!) bob amser yn fodlon gorfod mynd i'r capel, dwi bellach yn anwylo'r atgofion amdano, fel rhan annatod o fy mywyd, ac wrth gwrs fel sylfaen i fy ffydd.

Mae bron pawb o'r cyfnod yna i gyd wedi mynd erbyn hyn, a chymdeithas Gymraeg Lerpwl wedi edwino yn arw. Ac mae capel Anfield Rd yntau wedi'i ddymchwel a thai newydd yn sefyll ar y safle. Ond dyma ni heddiw yn dal i gredu ac i addoli, ac yn cynnal y fflam. Er gwaethaf newidiadau troeon lawer ar fyd, yr un yw'r Arglwydd a'i neges o obaith ac iachawdwriaeth drwy Ei aberth Ef. Diolch iddo amdani, ac am yr atgofion sy'n ein llunio drwy gydol bywyd.

*Robin Huw Bowen*

## Blaenor y mis: Rhys Jones

## Dyddiadur Mai 2024

**Gwasanaethau'r Sul: 10 y bore yng Nghapel y Morfa ac ar Zoom. 2:15 y prynhawn yn Ebeneser ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul o'r mis.**

5 Mai - Y Parchg Eifion Roberts
12 Mai - Y Parchg Dafydd Andrew Jones
19 Mai - Y Parchg Eifion Roberts (Y Pentecost)
26 Mai - Y Parchg Geraint Tudur

### Rhestr flodau Capel y Morfa

5 Mai - Blodau'r Bedol
12 Mai - Blodwen Williams a Phyllis Jones
19 Mai - Rhys a Jenny Jones (Elusen)
26 Mai - Mary C. Jones

**Ysgol Sul:** Plant ac ieuenctid: yn y festri.

**Cylch gweddi a choffi:** Bore Mawrth am 11 y.b. ar Zoom.

**Ffydd a phaned:** Prynhawn Gwener am 2 y.p. ar Zoom.

**Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd. Diolch i Menai, Catherine, Eifion a Robin am y lluniau yn y rhifyn hwn. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Mehefin o Perthyn i Hywel (hywel.lloyd6@gmail.com) erbyn dydd Sul 19 Mai, os gwelwch yn dda.**